

CANLLAW CHUCK-A-PUCK CROESO CAERDYDD I...

TREETOP ADVENTURE GOLF



TREETOP ADVENTURE GOLF

Mae gan Treetop Adventure Golf ddau gwrs golff mini 18-twll, dan do. Tactlwy y Cwrs Trofannol a Cwrs yr Henfyd cyn i chi herio'r 19eg twll i ennill rownd am ddim!

Chwilio am antur epig? Ewch am dro drwy fforest drofannol werddaf Caerdydd, lle mae'r taranau'n taranu, hen ysbrydion yn aflonyddu a golff mini'n teyrnasu.

Tactlwy y Cwrs Trofannol neu Gwrs yr Henfyd, ein cyrsiau dan do 18-twll. Yna mwynhewch goffi, coctels trofannol a pizza cartref yn y Tŷ Clwb. Yn deuluoedd, criw o ffrindiau, cyplau cariadus neu feistri profiadol... mae rhywbeth i bawb gennym yn ein byd trofannol. Rydym ar agor saith diwrnod yr wythnos a does dim angen cadw lle - dim ond cyrraedd a bant â chi!

CWRS TROFANNOL

Bant â chi ar antur 18-twll drwy'r jwngl. Crwydrwch drwy ganopi'r goedwig, sgwrsiwch â thwcan direidus, pasiwch y Coed Campus, a gwyliwch rhag y mell a tharanau wrth i chi fynd. O, ac a allwch chi glywed y brogaod bach yn harmoneiddio yn y gors dywyll? Ydych chi'n barod am her drofannol?

CWRS YR HENFYD

Darganfyddwch 18 twll o hud a lledrith. Cewch groeso cynnes i Deyrnas y Cymylau gan y Mwgwd Sanctaidd a'r Pennaeth Llwrfr - ond peidiwch â'u hypsetio, da chi! Pytiwch drwy Goeden Enfawr i ddefro eneidiau hynafol y niwl, ond cadwch lygad ar dduwiau'r taranau wrth i chi basio'r Afon Hudol. Allwch chi oresgyn teyrnas yr henfyd?

Y 19EG TWLL

Draw â chi i'r twll ychwanegol! Mae Bob yn rhoi'r cyfle i bob chwaraewr brofi ei sgiliau ac ennill rownd am ddim. Ond cofiwch, os na fyddwch yn cyrraedd y nod bydd yn rhaid i chi ddioddef ychydig o dynnu coes enwog Bob. Oes gennych chi'r gallu i drechu'r 19eg?

COFIWCH BRYNU EICH PYC I GYMRYD RHAN YN Y GYSTADLEUAETH HWYL AR NOSON Y GÊM!



Dysgwch fwy yn croesocaerdydd.com

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol!
#CroesoCaerdydd

